# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Claudette Fleming**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

gyhoe
Adroddi gyhoeddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Claudette Fleming yn warchodwr plant cofrestredig ac mae'n gweithredu ei gwasanaeth o bentref Llanberis yn sir Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 10 o blant o dan 12 oed. Yr oriau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:00am a 5:30pm. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cynnig Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac yn mwynhau gwneud dewisiadau er mwyn dilyn eu diddordebau personol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod beth yw dewisiadau'r plant, yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn darparu gofal magwrus mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau mewn perthynas â dealltwriaeth y gwarchodwr plant o weithdrefnau diogelu ac o ran cofnodi cynnydd y plant er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant. Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn helaeth. Ni chaiff yr ardd awyr agored yn y cefn ei defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn addas ond mae angen gwneud gwelliannau.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi prynu bwrdd a meinciau picnic pren i'w defnyddio dan do er mwyn i'r plant allu bwyta gyda'i gilydd yn ystod adegau bwyd a mwynhau'r achlysur cymdeithasol hwn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym nad yw'r gwarchodwr plant yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, gan arwain at risg bosibl i'r plant. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r canlynol:

- **Diogelu** (rheoliad 20 (1) (a)) nid oedd y gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn llawn mewn perthynas â diogelu plant a sut i roi ei pholisi diogelu ar waith yn addas.

Rydym wedi hysbysu'r gwarchodwr plant fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chadw cofnodion (rheoliad 30) er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n berthnasol er mwyn diwallu anghenion unigol y plant wedi'i chasglu. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r gwarchodwr plant gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y sefyllfa ei hystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser i'r plant ac olrhain cynnydd y plant er mwyn ei gwneud hi'n haws nodi'r camau nesaf wrth gynllunio gweithgareddau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant — Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac wedi setlo. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn datblygu eu dysgu drwy chwarae. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth mewn ffordd gyson.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, wrth fynd am dro drwy'r coetir lleol, dangosodd plentyn i ni ble roedd yn chwarae â'i ffrindiau a dywedodd wrthym yn llawn brwdfrydedd am y tro y daethant o hyd i ffau mochyn daear. Roedd y plant hŷn, wrth iddynt gerdded o'r ysgol, yn sblasio yn y pyllau glaw a gwnaethant sôn wrthym am yr hyn a gawsant gan Siôn Corn. Soniodd plentyn yn llawn cyffro am ei feic modur newydd ac esboniodd sut y byddai'n mynd "brrrm" wrth iddo droi'r allwedd. Ymatebwyd yn brydlon i geisiadau'r plant am ddwy frechdan ŵy i ginio.

Roedd y plant yn hoff o'r gwarchodwr plant ac yn teimlo'n hapus gan ei bod yn gwerthfawrogi eu teimladau a'u dymuniadau. Roeddent yn dal ei llaw wrth iddynt gerdded drwy'r pentref ac roeddent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, wrth gyrraedd o'r ysgol, ar ôl cerdded yn y glaw, roeddent wedi casglu eu heiddo personol ac wedi newid i'w dillad sbâr sych cyn golchi eu dwylo er mwyn cael byrbryd.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r gwarchodwr plant. Roeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn cydweithio'n dda. Er enghraifft, wrth fynd am dro drwy'r pentref, roeddent yn ymarfer diogelwch ar y ffyrdd yn dda a dangosodd plentyn i ni sut roedd yn rhaid iddo aros am y gwarchodwr plant cyn agor giât y coetir er mwyn cerdded drwyddi. Gwnaethant ddangos sut roeddent yn dal gafael yn nhennyn y ci gyda'r gwarchodwr plant ac yn anwesu'r ci yn dyner. Roedd y plant yn cymryd eu tro i chwarae â'r gwahanol gerbydau trên ac yn cael eu canmol ag iaith gadarnhaol am eu hymdrechion a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Roedd y plant yn datblygu eu chwarae a'u dysgu mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, roeddent yn chwarae'n llawn dychymyg yn y gornel gartref, gan ddefnyddio'r peiriant coffi tegan pren i wneud diod i'w ffrind ac ysgwyd y bwyd tegan yn y badell ffrïo ar yr hob. Roedd y plant eraill yn mwynhau dangos i ni sut y gallent ysgrifennu eu henwau ar ôl lliwio llun. Roedd y plant hŷn yn mwynhau eistedd yn y gornel gysurus i ymlacio ac i ddarllen amrywiaeth o lyfrau. Gwnaethant ddangos yn llon i'r gwarchodwr plant sut y gallent ddod o hyd i gymeriad Wally yn y llun. Roedd y plant wrthi'n dysgu am ailgylchu. Er enghraifft, dangosodd plentyn i ni'n llawn brwdfrydedd sut roedd yn ailgylchu ei wastraff bwyd a dywedodd wrthym ei fod yn mynd i mewn i'r "bin bach".

Roedd y plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gyson. Er enghraifft, roeddent yn gwisgo eu gwasgodau gwelededd uchel eu hunain cyn mynd allan ac yn hongian eu cotiau eu hunain a'u heiddo personol yn y gofod a ddarparwyd. Roedd y plant yn diosg eu hesgidiau glaw eu hunain ac yn dyfalbarhau wrth wisgo eu sanau sych gyda chymorth cyfyngedig.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Digonol

**Crynodeb**

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd deg a chyson. Mae'n trefnu gweithgareddau priodol i ddatblygu dysgu'r plant drwy chwarae.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw mewn ffordd addas. Roedd yn darparu prydau iach ac yn annog y plant i fod yn egnïol yn yr awyr iach, gan ddatblygu eu sgiliau corfforol a'u profiadau yn yr awyr agored yn dda. Roedd cofnodion ysgrifenedig yn dangos tystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal ar adegau priodol. Mae ganddi gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y gwarchodwr plant yn hyderus o ran y gweithdrefnau cywir i'w rhoi ar waith pe bai ganddi bryderon am blentyn yn ei gofal. Wrth drafod y mater, nid oedd yn dilyn ei pholisi ei hun, a dywedodd wrthym nad oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu yn ddiweddar. Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant fod yn hyn peri pryder ac y byddem yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Roedd y gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn briodol pan oedd ci'r teulu yn bresennol pan roeddent allan yn y gymuned ac wrth gerdded i'r ysgol ac oddi yno. Ers ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi llunio polisi anifeiliaid anwes i'w rannu â'r rhieni ac wedi cyflwyno'r polisi hwnnw i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer golchi dwylo ac yn annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Gan nad oedd unrhyw blentyn yr oedd angen newid ei gewyn ar ddiwrnod ein hymweliad, gwnaethom ofyn i'r gwarchodwr plant ddangos i ni pa gamau y byddai'n eu cymryd, ond nid oedd y camau hyn yn unol â'r canllawiau presennol ar reoli heintiau. Ers ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno polisi newid cewynnau diwygiedig i AGC sy'n amlinellu'r gweithdrefnau cywir. Roedd y gwarchodwr plant yn ail-lenwi poteli yfed y plant â dŵr ond nid oedd dŵr yfed ffres ar gael bob amser er mwyn sicrhau bod y plant wedi'u hydradu. Roedd ffurflenni damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau'n briodol a'u llofnodi gan y gwarchodwr plant a'r rhiant.

Mae'r gwarchodwr plant yn gynnes ac yn garedig ac roedd yn siarad â'r plant mewn ffordd dyner ac amyneddgar. Roedd y gwarchodwr plant yn annog cwrteisi ac o ganlyniad, roedd y plant yn gwrtais. Roedd yn defnyddio iaith gadarnhaol i ganmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, er enghraifft, canmolwyd y plant am adeiladu trac trenau yn ofalus. Roedd wedi siarad â'r plant hŷn am eu diwrnod, eu teuluoedd a'r hyn yr hoffent ei wneud wrth iddynt gerdded o'r ysgol. Roedd hyn yn gwneud i'r plant deimlo'n gyfforddus ac wedi setlo.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi rhai o egwyddorion cwricwlwm y cyfnod sylfaen ar waith er mwyn creu ardaloedd dysgu diffiniedig. Nid yw'n cynllunio'n ffurfiol ar gyfer gweithgareddau ond mae'n gofyn i'r plant beth yr hoffent ei wneud ar y diwrnod ac yn ymateb i'w ceisiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

gynnydd eu plant ar lafar a thrwy anfon negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'n cofnodi arsylwadau ar ddatblygiad unigol y plant ond dywedodd wrthym y byddai'n ystyried gwneud hynny yn y dyfodol drwy greu dyddiaduron dysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn helaeth. Ni chaiff yr ardal awyr agored yn y cefn ei defnyddio. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da.

**Ein canfyddiadau**

Roedd yr amgylchedd yn ddiogel a chaiff presenoldeb ymwelwyr ei gofnodi hefyd. Roedd y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn lân.  Roedd asesiadau risg ar waith ac roedd y rhain yn nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau a oedd ar waith i reoli'r risgiau hynny. Roedd y system wresogi a'r cyfarpar diogelwch tân wedi cael eu hadolygu. Roedd giard tân o amgylch y stôf llosgi pren ac ers ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi llunio polisi ar gyfer ei ddefnyddio ac wedi'i gyflwyno i AGC. Gwnaethom drafod fod angen atgyweirio'r giât bren i'r ardd gefn, rhywbeth a nodwyd hefyd yn ystod yr arolygiad blaenorol, gan na ellid ei chau. Mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau cadarnhaol i ymdrin â'r mater hwn a chyflwynodd dystiolaeth o hynny i AGC. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Mae trefn a dyluniad yr amgylchedd dan do yn cynnig ardal chwarae gysurus a deniadol i'r plant lle y caiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo. Er enghraifft, mae ystafell wely wedi'i throsi at ddefnydd amgen mewn lleoliad cyfleus, lle roedd amrywiaeth o deganau wedi'u gosod mewn ffordd ddeniadol ar gael. Roedd gwaith celf y plant wedi'i arddangos ac roedd ardal ddynodedig ar gyfer storio eu heitemau personol, gan greu ymdeimlad o berthyn. Nid oedd yr ardd gefn yn cael ei defnyddio, ond roedd y gwarchodwr plant yn annog digon o brofiadau awyr agored i'r plant gael budd o fod yn yr awyr iach.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod teganau ac adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, ac mae ganddi ardaloedd trefnus sy'n helpu'r plant i ddatblygu eu dysgu drwy chwarae yn dda. Er enghraifft, roedd amrywiaeth o bropiau pren yn y gornel gartref i annog y plant i ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Roedd rhai o'r doliau a'r ffigyrau byd bach yn adlewyrchu ein cymdeithas ehangach er mwyn meithrin ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas mewn ffordd gadarnhaol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn addas ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn bodloni'r gofynion. Mae system ar waith ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth yn briodol. Roedd y rhan fwyaf o hyfforddiant a pholisïau'r gwarchodwr plant yn gyfredol. Mae'n meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac yn ymgysylltu â'r gymuned.

### Ein canfyddiadau

Ers ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau cadarnhaol i gyflwyno polisïau ysgrifenedig newydd a chadarnhad ei bod wrthi'n adolygu rhai o'i gweithdrefnau er mwyn gwella ymarfer i AGC. Mae wedi diweddaru ei datganiad o ddiben, sydd bellach yn darparu gwybodaeth am y math o wasanaeth y mae'n ei gynnig. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o'i chyfrifoldebau o ran hyrwyddo'r Gymraeg a gallai ddangos bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.

Mae gan y gwarchodwr plant system briodol ar waith ar gyfer casglu barn pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, drwy holiaduron a thrwy nodi sylwadau llafar gan y rhieni a'r plant. Lluniwyd adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ond mae angen mwy o fanylion am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, beth y mae angen ei wella ac erbyn pryd. Bydd hyn yn helpu'r gwarchodwr plant i gynnal gwerthusiad cyffredinol er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant ymhellach yn y dyfodol.

Gwnaethom archwilio cofnodion unigol dau blentyn a nodwyd gennym nad oedd yr holl wybodaeth ar gael i alluogi'r gwarchodwr plant i ddiwallu anghenion unigol y plant. Roedd y gwarchodwr plant yn cofnodi presenoldeb y plant yn addas. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi holi am hyfforddiant diogelu a'i bod wrthi'n cofrestru ar gwrs.

Ni wnaethom siarad â'r rhieni ar y diwrnod, ond roedd y sylwadau a gasglwyd gan y gwarchodwr plant yn gadarnhaol. Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned yn dda. Roedd ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn ymweld â safleoedd natur lleol ac yn dysgu am y bobl sy'n ein helpu drwy ymweliad a drefnwyd â'r orsaf dân leol er mwyn datblygu eu profiadau a chynnig cyfleoedd dysgu cadarnhaol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r gwarchodwr plant ystyried y canlynol:

- darparu mynediad hawdd i'r plant allu helpu eu hunain i ddŵr yfed ffres drwy gydol y sesiwn er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hydradu
- cofnodi'r arsylwadau a wneir ar gynnydd y plant er mwyn helpu wrth gynllunio ar gyfer gweithgareddau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd
un Arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau 16 Ionawr 2020 rhwng 9:17am a 1:55p.m. a rhwng 2:00p.m. a 4:30p.m.

Gwnaethom y canlynol:

- arolygu sampl o ddogfennau, polisïau, cofnodion unigol dau blentyn;
- arsylwi ar arferion er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant;
- arolygu'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau a mynd gyda'r gwarchodwr plant wrth iddi fynd â'r plant allan yn y gymuned;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | Gwarchodwr plant |
| **Person Cofrestredig** | Claudette Fleming |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | 10 |
| **Ystod oedran y plant** | O dan 12 oed |
| **Oriau agor** | O ddydd Llun i ddydd Gwener: rhwng 8:00a.m. a 5:30p.m. |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Y ddwy |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | 26 Ionawr 2017 |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | 16 Ionawr 2020 |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/03/2020

# Arolygiaeth Gofal Cymru

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

## Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

**Gwarchodwr Plant**

Mae’r hysbysiad hwn yn nodi’r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â’r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, y person cofrestredig, gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni a bennir.

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu yn unol â’i pholisi gorfodi.**

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGGCC
www.arolygiaethgofal.cymru

**Claudette Fleming**

Caernarfon

**Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth 2020**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Gofal a Datblygiad | Ein Cyf: NONCO-00009128-VXMW |
|---|---|
| **Y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn** | |
| **Amserlen gwblhau** | **07/02/20** |
| | |
| **Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau gweithredu** | **Rhif y rheoliad** |
| Nid yw'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliad 20 (1) (a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: Diogelu a hyrwyddo lles. Mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) ei bod wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn / diogelu plant yn llwyddiannus, ac anfon cadarnhad ysgrifenedig atom (AGC), ei bod yn deall ei pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun yn llawn ac y bydd yn eu rhoi ar waith pe bai ganddi bryderon am unrhyw blentyn yn ei gofal. | |
| **Tystiolaeth** | |
| Yn ystod ein harolygiad ddydd Iau 16 Ionawr 2020, darparodd y gwarchodwr plant ymateb a oedd yn peri pryder pan gafodd ei holi am y camau gweithredu y byddai'n eu cymryd pe bai ganddi bryderon am blentyn yn ei gofal. Gwnaethom archwilio ei pholisi diogelu a nodwyd gennym nad oedd yr ymateb hwn yn unol â'r polisi. At hynny, dywedodd wrthym nad oedd yn hyderus o ran dilyn y gweithdrefnau a oedd yn unol â'i pholisi diogelu ei hun a dywedodd wrthym nad oedd wedi mynychu unrhyw hyfforddiant diogelu yn ddiweddar.<br><br>Yr effaith ar blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw y gall y gwarchodwr plant fod yn rhoi plant mewn perygl o gael eu niweidio drwy beidio â dilyn y gweithdrefnau cywir pan fydd ganddi bryderon diogelu am eu diogelwch a'u llesiant. | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi